# Tîm Plant ag Anabledd



Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Children with Disabilities Team



**Social Services**

Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# What is the Children with Disabilities Team?

The Children with Disabilities Team works with children (between the ages of 0 - 18 years) and families where a child has a severe learning, physical or sensory disability and which causes them significant difficulty in their daily living. We also work with children who have life threatening illnesses. The aim of the team is to provide support to help these children live with their families and enjoy the same opportunities and expectations as other children.

In the majority of cases we work directly with children and families together with other relevant agencies including Health and Education to provide support to children and their families in order to meet their assessed needs.

The Children with Disabilities Team also has an Occupational Therapist who undertakes assessment in respect of children with disabilities who may require specialist equipment or adaptations to the family home.

The Team works to the principles and requirements of the legislation regarding children and disabled people.



# Beth yw'r Tîm Plant ag Anableddau?

Mae'r Tîm Plant ag Anableddau'n gweithio gyda phlant (rhwng 0 - 18 oed) a theuluoedd lle mae plant ag anableddau dysgu, corfforol neu synhwyraidd a'r rheiny'n rhai difrifol ac yn achosi anhawster sylweddol iddynt yn eu bywyd bob dydd. Rydym hefyd yn gweithio gyda phlant sydd ag afiechydon all fygwth bywyd. Nod y tîm yw darparu cymorth i helpu'r plant hyn i fyw gyda'u teuluoedd a mwynhau'r un cyfleoedd a'r un disgwyliadau â phlant eraill.

Yn y mwyafrif o achosion rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd ynghyd ag asiantaethau perthnasol eraill gan gynnwys Iechyd ac Addysg i ddarparu cymorth i blant a'u teuluoedd er mwyn diwallu'u hanghenion asesedig.

Yn ogystal mae gan y Tîm Plant ag Anableddau Therapydd Galwedigaethol sy'n ymgymryd â'r asesiadau parthed plant ag anableddau allai fod angen cyfarpar arbenigol neu addasiadau i gartref y teulu.

Mae'r Tîm yn gweithio i egwyddorion a gofynion y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant a phobl anabl.




1

## Finding out what support you need? (Assessment of Need)

Before we can offer you help, we need to find out exactly what kind of support you need.  We do this through the assessment process.

Children and young people with disabilities have a legal right to have their needs assessed (and the needs of their carers) on request.  To help get the clearest picture of your child's needs we may need to consult with Health, Education and any voluntary agencies involved.

Once our assessment confirms that your child meets the criteria for the team and highlights to us what support services you need, we will start putting them in place.

## Services we may be able to offer (subject to eligibility)

- Keyworker, and linking with other services eg: Health, Education.
- Supporting young people during their Transition years to adulthood (14 - 18 years).
- Short break (respite) facilities, including support in the community



- Benefits advice.
- Aids/adaptations.
- Home Care support.
- Community support.
- Advice regarding registered charities.
- Information on other organisations, which provide support.
- Carers assessments.



## Darganfod pa gymorth sydd ei angen arnoch? (Asesiad Angen)

Cyn y gallwn gynnig cymorth, mae angen i ni ddarganfod pa fath o gymorth yn union sydd ei angen arnoch.  Gwnawn hyn drwy'r broses asesu.

Mae gan blant a phobl ifanc ag anableddau'r hawl gyfreithiol i gael eu hanghenion wedi'u hasesu (ac anghenion eu gofalwyr), o wneud cais am yr hawl honno.  Er mwyn cael darlun clir o anghenion eich plentyn, gallai fod angen i ni ymgynghori ag Iechyd, Addysg ac unrhyw asiantaethau gwirfoddol sydd ynghlwm wrth yr asesiad.

Unwaith bydd ein hasesiad yn cadarnhau bod eich plentyn yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer y tîm a thynnu'n sylw at ba wasanaethau cymorth sydd eu hangen arnoch, byddwn yn cychwyn eu rhoi yn eu lle.

## Gwasanaethau y gallem fedru eu cynnig (yn rhwym wrth gymhwyster)

- Gweithiwr allweddol, a chysylltu â gwasanaethau eraill e.e. Iechyd, Addysg.



- Cyfleusterau gwyliau byr (seibiant).
- Cyngor ar fudd-daliadau.
- Cymhorthion/addasiadau.
- Cymorth Gofal Cartref.
- Cymorth cymunedol.
- Cyngor ynghylch elusennau cofrestredig.
- Gwybodaeth ar sefydliadau eraill, sy'n darparu cymorth.
- Cyfraniadau ysgrifenedig i'r broses datganiad addysgol.
- Asesiadau gofalwyr.
- Prosiect Gofalwyr Ifanc.

- Referral to the Young Carers project.
- Signposting to 'Universal Services' in Blaenau Gwent – the Families First project.

## More information about the services

### Short breaks – family link

This service can provide regular short breaks including overnight stays by linking the child with a disability to another family. The service offers breaks for parents and new experiences for the child. Link families undergo a rigorous assessment and receive payment and ongoing support.

### Community Support

The Children with Disabilities Team works very closely with the Barnardos project based in the Blaenau Gwent area. This service enables a disabled child to get involved in community activities with the support of a Barnardos support worker.

The support worker will assist the child to participate in activities within their Community to help the child to feel part of their community and to develop their social and independence skills e.g. youth club, swimming club, visiting places of interest, etc.



**Home Care:**
Home Care is offered to provide practical support in the child's home.

### Practical Support

Practical support within the child's home can be offered, subject to assessment, to provide support and assistance e.g. help with personal care.





- Cyfeirio at 'Gwasanaethau Cyffredinol' ym Mlaenau Gwent - mae'r prosiect Teuluoedd yn Gyntaf.

## Mwy o wybodaeth am y gwasanaethau

### Gwyliau byr – cyswllt teulu

Gall y gwasanaeth hwn ddarparu seibiannau byr rheolaidd gan gynnwys arosiadau dros nos drwy gysylltu'r plentyn ag anabledd i deulu arall. Mae'r gwasanaeth yn cynnig seibiannau i rieni a phrofiadau newydd i'r plentyn. Mae teuluoedd cyswllt yn cael eu hasesu'n llym ac maent yn derbyn tâl a chymorth parhaus.

### Gwasanaeth cymunedol

Mae'r Tîm Plant ag Anableddau'n gweithio'n glos iawn gyda phrosiect Barnardos a leolir yn ardal Blaenau Gwent. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi plentyn anabl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol gyda chefnogaeth gweithiwr cymorth Barnardos.

Bydd y gweithiwr cymorth yn cynorthwyo'r plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau o fewn ei gymuned/chymuned er mwyn helpu'r plentyn i deimlo'n rhan o'r gymuned a datblygu'i sgiliau cymdeithasol ac annibynnol e.e. clybiau ieuenctid, clybiau nofio, ymweld â llefydd o ddiddordeb, ac ati.

Gall y tîm, ar y cyd gyda Barnardos, lle cyflawnwyd asesiad, drefnu i weithiwr cymorth ddarparu gwasanaeth "eistedd gartref" i alluogi rhiant/rhieni i gael seibiant.



**Gorfal Cantref**
Gofal Cartref ei gynnig i ddarparu cymorth ymarferol yng nghartref y plentyn.

### Gofal Cartref

Cynigir Gofal Cartref i ddarparu cymorth ymarferol yng nghartref y plentyn e.e. cymorth gyda gofal personol.

### Supporting Young People with their Transition to Adulthood

In conjunction with other professionals, the Children with Disabilities Team can ensure that young people with disabilities are supported towards their transition to adulthood. For example, a range of professionals involved with supporting the young person with disabilities (including Adult Services Social Services) will work with the young person, from their 14th birthday, and their family to assess and plan support. This will ensure the necessary support is in place for the young person for when they reach their 18th birthday.

## Disability Index

The Children's Act 1989 requires each Local Authority to collect information about children and young people with additional needs or a disability. The Index brings together the registers held by Education and Social Services to plan for the future for children with any disability and/or life-altering health condition.

The Index is a confidential, secure computer database which holds all the necessary information, about children and young people aged 0-18 with any disability and/or life-altering health condition.

The Index will enable us jointly to:

- Collect and supply information for planning for future years and the immediate future – from Schools and Transport to Holiday Schemes and Respite Care. This makes sure children and their families are included in planning services.
- Ensure that children and their families know what is going on in Blaenau Gwent and how to read and obtain services.





### Cefnogi Pobl Ifanc gyda Phontio i Fywyd fel Oedolion

Mewn cysylltiad â gweithwyr proffesiynol eraill, gall y Tîm Plant gydag Anableddau sicrhau y caiff pobl ifanc gydag anableddau eu cefnogi wrth iddynt bontio i fywyd fel oedolion. Er enghraifft, bydd ystod o weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â chefnogi'r person ifanc gydag anableddau (yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol Gwasanaethau Oedolion) yn gweithio gyda'r person ifanc, o'u pen-blwydd yn 14 oed, a'u teulu i asesu a chynllunio cefnogaeth. Bydd hyn yn sicrhau fod y gefnogaeth angenrheidiol yn ei lle ar gyfer y person ifanc pan fyddant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 18 oed.

## Mynegai Anabledd

Mae Deddf Plant 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol gasglu gwybodaeth am blant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol neu anabledd. Mae'r Mynegai yn dod ynghyd â'r cofrestri a gedwir gan Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynllunio ar gyfer y dyfodol ar gyfer plant gydag unrhyw anabledd a/neu gyflwr iechyd sy'n newid bywyd.

Mae'r Mynegai yn gronfa ddata gyfrifiadurol gyfrinachol a diogel sy'n cadw'r holl wybodaeth sydd ei hangen am blant a phobl ifanc 0-18 oed gydag unrhyw anabledd a/neu gyflwr iechyd sy'n newid bywyd.

Bydd y Mynegai yn ein galluogi ar y cyd i:

- Gasglu a chyflenwi gwybodaeth ar gyfer y cyfnod nesaf a hefyd flynyddoedd y dyfodol - o Ysgolion a Chludiant i Gynlluniau Gwyliau a Gofal Seibiant. Mae hyn yn sicrhau y caiff plant a'u teuluoedd eu cynnwys wrth gynllunio gwasanaethau..
- Sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn gwybod beth sy'n digwydd ym Mlaenau Gwent a sut i ddarllen a chael gwasanaethau.

# How do I get support from the Children with Disabilities Team?

If you have a child with disabilities and wish to make use of any of these services, you will first need to have your child's needs assessed by a social worker.

To get in touch with the Team, please contact:

C2BG
Blaenau Gwent County Borough Council
Civic Centre
Ebbw Vale
Gwent
NP23 6XB



Tel: (01495) 315700
Fax: 01495) 353350
Minicom: (01495) 355959

We aim to be as flexible as possible to meet the changing needs of children and their families and we will review the services you receive regularly.

To receive this information in Braille, large print, electronically or on audio tape please contact the Information Officer on (01495) 354630.

Leaflet CS006-2 April 2016
**www.blaenau-gwent.gov.uk**

# Sut caf i gymorth oddi wrth y Tîm Plant ag Anableddau?

Os oes gennych chi blentyn ag anableddau ac yn dymuno gwneud defnydd o unrhyw rai o'r gwasanaethau hyn, yn gyntaf bydd angen i chi gael anghenion eich plentyn wedi'u hasesu gan weithiwr cymdeithasol.

Er mwyn cysylltu â'r Tîm, a fyddech gystal â chysylltu â'r canlynol:

C2BG
Swyddfeydd Bwrdeisiol
Y Ganolfan Ddinesig
Glyn Ebwy
Gwent
NP23 6XB



Ffôn: (01495) 315700
Ffacs: 01495) 315265
Minicom: (01495) 355959

Ein nod yw bod mor hyblyg â phosibl i ddiwallu anghenion newidiol plant a'u teuluoedd a byddwn yn adolygu'r gwasanaethau a dderbyniwch yn rheolaidd.

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn Braille, print bras, yn electronig neu ar dâp sain cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth ar (01495) 354630 os gwelwch yn dda.

Taflen CS006-1 Ebrill 2016
**www.blaenau-gwent.gov.uk**

# Social Services Feedback Form

## Children with Disabilities Team Leaflet

What did you think about this leaflet?

Please help us by filling out the form below
and return it using the freepost address.

When and where did you get this leaflet?

| | | |
|---|---|---|
| Was the layout of the leaflet easy to follow? | ❑Yes | ❑No |
| Was the information easy to understand? | ❑Yes | ❑No |
| Was the information useful? | ❑Yes | ❑No |

Any other comments:

# Ffurlen Adborth Gwasanaethau Cymdeithasol

## Taflen Tîm Plant ag Anableddau

Beth yw eich barn am y daflen hon?

Gofynnwn i chi'n helpu drwy lenwi'r ffurlen isaw
a'i dychwelyd yn defnyddio'r cyfeiriad rhadbost.

Lle a phryd gawsoch chi'r daflen hon?

| | | |
|---|---|---|
| A oedd trefn y daflen yn rhwydd ei dilyn? | ❑Oedd | ❑Na |
| A oedd yr wybodaeth yn rhwydd ei deall? | ❑Oedd | ❑Na |
| A oedd yr wybodaeth yn ddefnyddiol? | ❑Oedd | ❑Na |

Unrhyw sylwadau eraill:

BUSINESS REPLY SERVICE
Licence No. SWC0768

2

**Social Services**
Blaenau Gwent County Borough Council
**FREEPOST**
Municipal Offices, Civic Centre
Ebbw Vale, Gwent. NP23 6ZZ

**Social Services**
Blaenau Gwent County Borough Council
**FREEPOST**
Municipal Offices, Civic Centre
Ebbw Vale, Gwent. NP23 6ZZ

2

BUSINESS REPLY SERVICE
Licence No. SWC0768